# Ffurflen gais Bondiau Incwm

Mae'n haws ac yn gyflymach i wneud cais ar-lein. Sganiwch y cod QR hwm new ewch i **nsandi.com/IBSF**

NS&I

> Llenwch y ffurflen hon os ydych dros 16 oed ac eisiau buddsoddi mewn cyfrif Bondiau Incwm NS&I yn eich enw chi neu ar y cyd ag un unigolyn arall dros 16 oed.

> Ysgrifennwch mewn **PRIFLYTHRENNAU DU** y tu mewn i'r blychau. Bydd hyn yn ein helpu i brosesu'ch ffurflen yn gynt.

> **Oes gennych chi gyfrif Bondiau Incwm yn barod?**
> Os ydych eisiau buddsoddi mwy o arian yn eich cyfrif Bondiau Incwm, defnyddiwch y ffurflen symlach, 'buddsoddi mewn Bondiau Incwm'. Gallwch ei lawrlwytho o **nsandi.com/forms** neu ffoniwch ni ac fe anfonwn un atoch.

## 1 Eich buddsoddiad cychwynnol

swm £ ______ c — lleiafswm £500, uchafswm £1 filiwn fesul unigolyn

cyfeirnod y cais ______

Gallwch ei dalu trwy siec neu drwy gyfnewid o gyfrif NS&I arall (gweler adran 2). Os ydych yn talu trwy siec, ysgrifennwch gyfeirnod y cais ar y cefn.

## 2a Talu trwy siec

*Rhowch fanylion y cyfrif y tynnir eich siec arno.*

enw deiliad y cyfrif ______

rhif y cyfrif ______ cod didoli __ - __ - __

## 2b NEU drwy gyfnewid o gyfrif NS&I arall

Mae'n rhaid i'r cyfrif NS&I rydych yn cyfnewid ohono fod yn eich enw chi neu enw'r ail fuddsoddwr, os yw'n berthnasol. Os byddwch yn cyfnewid o fuddsoddiad tymor sefydlog nad yw ar werth, ni fyddwch yn gallu cyfnewid yn ôl. Mae'n bosibl na fydd unrhyw swm a godwch o ISA Uniongyrchol yn gallu cael ei dalu'n ôl i mewn yn ystod y flwyddyn dreth hon.

y math o gyfrif NS&I rydych yn cyfnewid ohono ______

rhif cyfrif neu rif deiliad ______

Os ydych eisiau cyfnewid o fuddsoddiad tymor sefydlog, mae yna rai cyfyngiadau. Gwiriwch gytundeb y cwsmer (telerau ac amodau) ar gyfer y buddsoddiad rydych yn cyfnewid ohono cyn gwneud cais.

*Os bydd y swm rydych yn ei gyfnewid yn mynd â balans eich cyfrif islaw'r lleiafswm a ganiateir, mae'n rhaid i chi farcio i ddangos eich bod eisiau cau'r cyfrif.*

Os ydych yn cyfnewid o fuddsoddiad tymor sefydlog, ydych chi eisiau gohirio tan iddo aeddfedu? (Gallwch ohirio o fewn 30 niwrnod cyn y dyddiad aeddfedu yn unig.)

ydw ☐ nac ydw ☐ **Efallai bydd taliad cosb yn berthnasol os byddwch yn cyfnewid buddsoddiad tymor sefydlog cyfan, neu ran ohono, cyn ei ddyddiad aeddfedu.**

**Os ydych eisiau cau'r cyfrif rydych yn cyfnewid ohono, rhowch farc yma** ☐

Os dewiswch ei gau, byddwn yn ad-dalu unrhyw falans sy'n weddill ar ôl cyfnewid yn syth i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu enwebedig sydd ar ein cofnodion. Neu, os nad oes gennym y wybodaeth hon, trwy warant a anfonir at eich cyfeiriad.

## 3 Eich manylion chi

***Llenwch bob maes.***

teitl ______ dyddiad geni (DD MM BBBB) ______

cyfenw ______

enwau cyntaf yn llawn ______

cyfeiriad ______

cod post ______ gwlad breswyl ______

cenedligrwydd ______

rhif ffôn ______ Rhif ffôn symudol yn ddelfrydol fel y gallwn gysylltu â chi'n haws.

cyfeiriad e-bost ______

*Os ydych yn preswylio mewn mwy nag un wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig am resymau treth, rhowch y wlad dreth a'r rhif adnabod treth ar gyfer pob un o'r rhai eraill ar ddalen ar wahân.*

**Os ydych yn preswylio mewn unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig am resymau treth, llenwch y meysydd isod.**

dinas enedigol ______

gwlad enedigol ______

gwlad dreth ______

rhif adnabod treth ______

## 4 Manylion yr ail fuddsoddwr

*Llenwch yr adran hon dim ond os ydych yn gwneud cais am gyfrif ar y cyd.*

***Llenwch bob maes.***

teitl

dyddiad geni (DD MM BBBB)

cyfenw

enwau cyntaf yn llawn

cyfeiriad

cod post

gwlad breswyl

cenedligrwydd

rhif ffôn

Rhif ffôn symudol yn ddelfrydol fel y gallwn gysylltu â chi'n haws.

**Os yw'r ail fuddsoddwr yn preswylio mewn unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig am resymau treth, llenwch y meysydd isod.**

*Os yw'r ail fuddsoddwr yn preswylio mewn mwy nag un wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig am resymau treth, rhowch y wlad dreth a'r rhif adnabod treth ar gyfer pob un o'r rhai eraill ar ddalen ar wahân.*

dinas enedigol

gwlad enedigol

gwlad dreth

rhif adnabod treth

## 5 Manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu enwebedig

*Mae arnom angen y manylion hyn cyn y gallwn dderbyn y cais.*

*Bydd yr holl incwm ac unrhyw arian a godir yn cael ei dalu'n syth i'r cyfrif hwn. Mae'n rhaid iddo fod yn gyfrif personol yn eich enw chi neu enw'r ail fuddsoddwr, a ddelir yn y DU, sy'n gallu derbyn taliadau trwy drosglwyddiad electronig.*

Os yw'n gyfrif Cynilwr Uniongyrchol NS&I, ysgrifennwch 'NS&I' yn y maes 'banc/cymdeithas adeiladu', llenwch y maes 'enw'r sawl sy'n dal y cyfrif' ac ysgrifennwch rif y cyfrif yn y maes 'cyfeirnod banc neu rif cyfresol cymdeithas adeiladu'.

banc/cymdeithas adeiladu

enw'r sawl sy'n dal y cyfrif

rhif y cyfrif

cod didoli - -

cyfeirnod banc neu rif cyfresol cymdeithas adeiladu (os yw'n berthnasol)

**Byddwch yn ofalus wrth roi eich manylion banc. Os byddwch yn rhoi'r manylion anghywir, gallai unrhyw daliadau a wnewch gael eu hoedi, neu eu credydu i'r cyfrif anghywir, ac fe allai arwain at golled ariannol.**

## 6 Eich llofnod(ion)

*Ar gyfer cyfrifon ar y cyd, mae'n rhaid i chi a'r ail fuddsoddwr lofnodi.*

**Datganiad:**
Rwyf i/Rydym ni wedi cael cyfle i ddarllen cytundeb y cwsmer (telerau ac amodau) dyddiedig **28 Chwefror 2022**.

buddsoddwr cyntaf

dyddiad (DD MM BBBB)

ail fuddsoddwr (os yw'n berthnasol)

dyddiad (DD MM BBBB)

**Eich dewisiadau marchnata**
Efallai y byddwn yn cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i hyrwyddo cyfrifon a buddsoddiadau eraill NS&I y gallech fod â diddordeb ynddynt. Os nad ydych eisiau i ni wneud hyn, marciwch y blwch/blychau isod:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| buddsoddwr cyntaf | drwy'r post ☐ | dros y ffôn ☐ | drwy'r e-bost ☐ | ar-lein ☐ |
| ail fuddsoddwr (os yw'n berthnasol) | drwy'r post ☐ | dros y ffôn ☐ | drwy'r e-bost ☐ | ar-lein ☐ |

Os byddwch yn marcio'r blwch 'ar-lein', efallai y gwelwch negeseuon hyrwyddo o hyd pan fyddwch wedi mewngofnodi ar ein gwefan, ond ni fyddant wedi'u teilwra i chi.

Gallwch newid eich dewisiadau marchnata unrhyw bryd ar-lein neu drwy gysylltu â ni.

## 7 Beth i'w wneud nesaf

- Cofiwch lofnodi'r ffurflen a rhoi'r dyddiad arni, yna anfonwch hi at:
  **NS&I, Sunderland SR43 2SB**

  **Os ydych yn talu â siec, gwnewch hi'n daladwy i 'NS&I'.**